Hymettus

CYD-FENTER: HYMETTUS — BWARS

Taflen Wybodaeth 3

Mawrth 2011

BWARS

Taflen Wybodaeth

Gwenynen y Coed

Bombus hypnorum

Stuart Roberts cyfieithwyd gan Iwan Roberts

- Peilliwr pwysig gwyllt o goed ffrwythau
- Cytrefwr newydd yn y DU
- Patrwm lliw nodwedd-diadol
- A allwch ychwanegu at ein gwybodaeth?

Yn cynnwys:

- Gwybodaeth gefndirol
- Lledaeniad yn y DU a'r byd
- Gofynion cynefinol
- Cadwraeth

Hanes a Lledaeniad yn y DU

Nodwyd Gwenynen y coed (*Bombus hypnorum*) gyntaf yn y DU yn haf 2001 o sbesimen a ddarganfuwyd ar ffin Hampshire a Wiltshire. Yn y blynyddoedd canlynol gwelwyd ynrheolaidd yn ardal Southampton a darganfuwyd boblogaethau newydd yn Swydd Hertford. Ers 2007 bu cynydd sylweddol mewn dosbarthiad ac amlder cofnodedig. Daeth cofnodion o chyn belled â Northumberland i'r gogledd, a de Cymru a Chernyw i'r gorllewin.

Ar gyfandir Ewrop mae'r rhywogaeth yn gyffredin a helaeth ei ddosbarthiad ac i'w weld hyd yn oed ar Benrhyn Kola yn Rwsia Arctig. Yn bennaf mae'n wenynen yr iseldir gyda chysylltiadau cryf â gerddi a pharciau.

Rhywogaeth gynnar yw yn bennaf. Mae'r breninesau yn ymddangos o'r gaeafgwsg ym mis Chwefror neu ddechrau mis Mawrth ac mae'r gweithwyr yn brysur drwy'r gwanwyn cynnar. Mae'r rhywogaeth ar ei hamlycaf yn hwyr ym mis Mai a Mehefin pan mae'r nythfeydd yn cynhyrchu'r gwenyn gwryn. Ceir ail nythaid rhannol yn weithgar yn yr haf.

Brenhines *Bombus hypnorum* yn gorffwys ar ddeilen

Ymweld â blodau Llysiau'r gwrid. Yn dangos y patrwm lliw unigryw



Lledaeniad *Bombus hypnorum* yn y DU 2004

Cynefin a Chadwraeth

Mae *Bombus hypnorum* yn aml yn sefydlu nythfeydd mewn tyllau uwchben y ddaear, megis gwagleoedd tô, tyllau mewn coed a blychau adar.

Maent i'w gweld mewn amrywiol gynefinoedd, o goedlannau, ymylon ffyrdd a phorfeydd prysglog i barciau trefol, gerddi a rhandiroedd. Maent yn aml yn ymweld â blodau coed ffrwythau a phlanhigion ffrwyth fel mwyar duon a chochion, lle meant yn beillwyr effeithlon tuag at wella cnydau.

Dichon bydd y wenynen yma yn cytrefu pob rhan o Ynysoedd Prydain ac nid yw'n debygol o effeithio'n negyddol ar rywogaethau eraill.

Nid oes angen mesurau cadwraethol arbennig.



Lledaeniad yn y DU ar ddiwedd 2011

Nyth *B. hypnorum* mewn blwch aderyn

Hymettus Cyf yw'r brif ffynhonell am gyngor ar gadwraeth gwenyn, gwenyn meirch a morgrug ym Mhrydain ac Iwerddon.

http://hymettus.org.uk/

BWARS, Y Gymdeithas Gofnodi Gwenyn, Gwenyn Meirch a Morgrug yw'r cynllun cenedlaethol sy'n darparu'r unig ffynhonell ddata dilys ar wenyn, qwenyn meirch a morgrug yn y DU.

http://www.bwars.com/

Am fwy o wybodaeth ac i gyflwyno cofnodion

cyswllt: spmr@msn.com

Lluniau gan: J. Oliver, L. Hebdon & T. Bantock